# SCHOOL IN-REACH SERVICE NEWSLETTER

## IN THIS ISSUE

- Welcome back
- End of year feedback
- Service updates
- Training dates

Hello and Welcome back! We hope you're feeling refreshed after the summer break and were able to unwind after another busy academic year. We are looking forward to getting back and catching up. We thought we would share some of the things we have been working on over the summer, and provide you with some updates on our service offer for the new academic year.

## SERVICE SHOUT OUT - THE HANGOUT

The Hangout has been offering a range of support through the summer. They continue to open 3pm - 9pm every day, weekdays and weekends, including bank holidays, offering:

- Drop-in or scheduled mental health support
- Wellbeing and Creative groups
- Volunteering

To contact the service, email **hangout@plattform.org** (two Fs) or call **07811 375417** or visit their website.

The Hangout is run by Platfform (a mental health charity) and is funded by the Cardiff and Vale University Health Board.

## END OF YEAR EVALUATION

We would like to thank you for completing the end of year evaluation questionnaire. Your feedback has helped us come together to review, update and develop aspects of our service, including:

- Updating some of the questions in our Request for Assistance form
- Streamlining our group intervention
- Planning a primary school pilot
- Considering how we can support staff in their role through reflective practice
- and more!


## OUR EVALUATION HIGHLIGHTS

**49** responses

How would you rate the service out of 5?

**4.63** average rating

"I feel well supported by the School In-Reach Service"




### *What has been the most helpful part of the service?*

*"Reassurance that strategies in place are appropriate and suggested further strategies"*

*"Knowing that there is service out there we as a school can reach out to for support. The service has been invaluable to me this year. It has been quick acting, knowledgeable and reassuring."*

*"Very reliable, dedicated and communicates well with staff and will do what they can to meet the needs of the pupils, staff and school to ensure that the health and well-being of the pupils is met. "*

*"Discussion of case to identify the most appropriate avenue for support"*

# SERVICE UPDATES

Here are some updates on our processes as a service, and some new parts of our service offer.

## GROUP OFFER



Over the summer the team have reviewed our group intervention offer. We have developed a group template that allows us to be more flexible to meet the needs of the group. The main focus of the group will be:

**psychoeducation around emotions, thoughts and behaviours**

With additional 'pick and mix' sessions on:

**sleep** social media body image

friendships **values** problem solving

Groups will be continue to be planned during prioritsation meetings and consultation. Groups will cover topics that reflect the needs of the learners.

## PRIMARY SCHOOL PILOT - PHASE 2



Last academic year, The School In Reach service completed phase one of a focus group with staff in education to begin exploring the needs of primary school age children.

Starting in September, the same cohort of 10 primary schools who signed up to phase one, will join us on phase two. This phase consists of **trialling consultations** where staff from primary schools can discuss a young person that they wish to think about to better understand their emotional health and well being needs.

Following this, we will carry out a review which will shape our future offer for Primary Schools. Watch this space!

## STUDENT VOICE CLUB




Gaining feedback for learners who have accessed our service has been hugely beneficial this year. We look forward to rolling this out across all our localities supporting Cardiff & Vale schools and education settings.

# TRAINING

Here is our open access online training programme for this term, available to all education staff across Cardiff and the Vale.

| DATE | TIME | TITLE OF TRAINING |
|---|---|---|
| Tuesday 17/9/2024 | 13:00-16:00 | Tree of Life<br>Woodland House, Cardiff* |
| Monday 30/9/2024 | 15:30-17:00 | Stress Awareness<br>(Online) |
| Tuesday 15/10/2024 | 15:30-17:00 | Embedding PACE in the Classroom<br>(Online) |
| **HALF TERM** | | |
| Thursday 7/11/2024 | 15:30-17:00 | Understanding and Responding to Distress<br>(Online) |
| Thursday 21/11/2024 | 13:00-16:00 | Managing Endings and Transitions Well<br>Woodland House, Cardiff* |
| Monday 2/12/2024 | 13:00-15:00 | Sensory Needs in the Classroom<br>Woodland House, Cardiff* |
| Monday 9/12/2024 | 15:30-17:00 | Responding to Behaviour with 'Two Hands'<br>(Online) |

* We are hosting in-person training with a maximum of 18 attendees, sign up quick so not to miss out!

or scan the QR code

**Sign up here: https://forms.office.com/e/8Mzvrqwje0**

SCHOOL IN-REACH SERVICE / GWASANAETH MEWNGYMORTH YSGOLION
Emotional Wellbeing & Mental Health / Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl
CYPF Children, Young People & Family Health Services
PPIT Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc ac Iechyd Teuluol
GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Cardiff and Vale University Health Board

# CYLCHLYTHYR Y GWASANAETH MEWNGYMORTH YSGOLION

## YN Y RHIFYN HWN:

- Croeso nôl
- Gwerthusiad diwedd blwyddyn
- Diweddariadau ar y gwasanaeth
- Dyddiadau hyfforddi

Helo a chroeso nôl! Gobeithio eich bod yn teimlo wedi ymlacio ar ôl gwyliau'r haf ac yn barod am flwyddyn academaidd brysur arall. Rydym yn edrych ymlaen at ddychwelyd i drefn a dal i fyny. Dyma gyfle i rannu rhai o'r pethau yr ydym wedi bod yn gweithio arnynt dros yr haf a rhoi diweddariad i chi ar yr hyn sydd gan ein gwasanaeth i'w gynnig ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.

## SYLW ARBENNIG I WASANAETH – THE HANGOUT

Mae The Hangout wedi bod yn cynnig amrywiaeth o gymorth drwy'r haf. Maent yn parhau i fod ar agor rhwng 3pm – 9pm bob dydd, yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau, gan gynnwys gwyliau banc, ac yn cynnig:

- Cymorth iechyd meddwl wrth alw heibio neu wedi'i drefnu
- Grwpiau creadigol a lles
- Gwirfoddoli

I gysylltu â'r gwasanaeth, e-bostiwch **hangout@platfform.org**, ffoniwch **07811 375417** neu ewch i'w gwefan.
Mae The Hangout yn cael ei gynnal gan Platfform (elusen iechyd meddwl) ac fe'i hariennir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar gyfer unrhyw un rhwng 11 a 18 oed.

## GWERTHUSIAD DIWEDD BLWYDDYN

Hoffem ddiolch i chi am gwblhau'r holiadur gwerthuso diwedd blwyddyn. Mae eich adborth wedi ein helpu i ddod ynghyd i adolygu, diweddaru a datblygu agweddau ar ein gwasanaeth, gan gynnwys:

- Diweddaru rhai o'r cwestiynau yn ein ffurflen Cais am Gymorth
- Symleiddio ein hymyriadau grŵp
- Cynllunio cynllun peilot ysgol gynradd
- Ystyried sut y gallwn gefnogi staff yn eu rôl drwy ymarfer myfyriol a mwy!


## UCHAFBWYNTIAU EIN GWERTHUSIAD:

**49** o ymatebion

Sut fyddech chi'n disgrifio'r gwasanaeth allan o 5?

**4.63** ar gyfartaledd

**'Teimlaf fy mod yn cael cefnogaeth dda gan y Gwasanaeth Mewngymorh Ysgolion'**




***Beth oedd rhan fwyaf defnyddiol y gwasanaeth?***

*"Sicrwydd bod strategaethau sydd ar waith yn briodol ac awgrymu strategaethau pellach"*

*"Gwybod bod gwasanaeth ar gael y gallwn ni fel ysgol gysylltu ag ef i gael cefnogaeth. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn amhrisiadwy i mi eleni. Mae wedi gweithredu'n gyflym, yn llawn gwybodaeth ac yn cynnig sicrwydd."*

*"Yn ddibynadwy iawn, yn ymroddedig ac yn cyfathrebu'n dda gyda staff. Yn gwneud popeth o fewn eu gallu i ddiwallu anghenion y disgyblion, y staff a'r ysgol i sicrhau bod iechyd a lles y disgyblion yn flaenoriaeth."*

*"Trafod achos er mwyn nodi'r llwybr mwyaf priodol i gael cefnogaeth"*

# DIWEDDARIADAU AR Y GWASANAETH

Dyma rai diweddariadau ar ein prosesau fel gwasanaeth, a rhannau newydd o'r hyn sydd gan ein gwasanaeth i'w gynnig.

## CYNNIG GRŴP



Dros yr haf, mae'r tîm wedi adolygu ein cynnig o ran ymyriadau grŵp. Rydym wedi datblygu templed ar gyfer grŵp sy'n ein galluogi i fod yn fwy hyblyg i ddiwallu anghenion y grŵp. Prif ffocws y grŵp fydd:

**Seicoaddysg ynghylch emosiynau, meddyliau ac ymddygiad**

Gyda sesiynau 'dewisa di' ychwanegol ar y canlynol:

delwedd y corff, cyfryngau cymdeithasol, **cwsg**, cyfeillgarwch, **gwerthoedd**, datrys problemau

Bydd grwpiau'n parhau i gael eu cynllunio yn ystod cyfarfodydd blaenoriaethu ac ymgynghori. Bydd grwpiau'n ymdrin â phynciau sy'n adlewyrchu anghenion y dysgwyr.

## CYNLLUN PEILOT YSGOL GYNRADD – CAM 2

Y llynedd, cwblhaodd y Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion gam un o grŵp ffocws gyda staff ym maes addysg i ddechrau archwilio anghenion plant oedran ysgol gynradd.

Gan ddechrau ym mis Medi, bydd yr un garfan o 10 ysgol gynradd a gofrestrodd ar gyfer cam un, yn ymuno â ni ar gam dau. Mae'r cam hwn yn cynnwys treialu ymgynghoriadau lle gall staff ysgolion cynradd drafod plentyn o'u dewis er mwyn deall ei anghenion iechyd a lles emosiynol yn well.
Yn dilyn hyn, byddwn yn cynnal adolygiad a fydd yn llunio ein cynnig ar gyfer Ysgolion Cynradd yn y dyfodol. Cadwch lygad allan!



## CLWB LLAIS MYFYRWYR

Mae cael adborth gan ddysgwyr sydd wedi defnyddio ein gwasanaeth wedi bod yn hynod fuddiol eleni. Rydym yn edrych ymlaen at gyflwyno hyn ar draws ein holl ardaloedd gan gefnogi ysgolion a lleoliadau addysg Caerdydd a'r Fro.




# HYFFORDDIANT

Dyma ein rhaglen hyfforddiant mynediad agored ar-lein ar gyfer y tymor hwn – mae ar gael i holl staff addysg ledled Caerdydd a'r Fro.

| DYDDIAD | AMSER | TEITL YR HYFFORDDIANT |
|---|---|---|
| Dydd Mawrth 17/9/2024 | 13:00-16:30 | Coeden Bywyd (Ty Coedtir, Caerdydd)* |
| Dydd Llun 30/9/2024 | 15:30-17:00 | Ymwybyddiaeth o Straen **(Ar-lein)** |
| Dydd Mawrth 15/10/2024 | 15:30-17:00 | Gwreiddio PACE yn yr Ystafell Ddosbarth **(Ar-lein)** |
| | **HANNER TYMOR** | |
| Dydd Iau 7/11/2024 | 15:30-17:00 | Deall Trallod ac Ymateb Iddo **(Ar-lein)** |
| Dydd Iau 21/11/2024 | 13:00-16:00 | Ymdopi â Diwedd Cyfnod a Phontio yn effeithiol (Ty Coedtir, Caerdydd)* |
| Dydd Llun 2/12/2024 | 13:00-15:00 | Anghenion Synhwyraidd yn yr Ystafell Ddosbarth (Ty Coedtir, Caerdydd)* |
| Dydd Llun 9/12/2024 | 15:30-17:00 | Ymateb i Ymddygiad gyda 'Dwy Law' **(Ar-lein)** |

* Rydym yn cynnal hyfforddiant mewn person gydag uchafswm o 18 o fynychwyr, cofrestrwch yn gyflym felly i beidio â cholli allan!

**Ffurflen gofrestru: https://forms.office.com/e/xxufqgaTL9**

neu sganiwch y cod QR